# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 304(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

(15 munud)

**NDM7486** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3 (heb ei wirio)

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Cwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 12.21(iv) - Cartrefu ceiswyr lloches yng ngwersyll milwrol Penalun

(60 munud)

**NDM7455** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu y dylai Llywodraeth y DU fod wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr lleol cyn rhoi llety i geiswyr lloches yng nghanolfan filwrol Penalun, ger Dinbych-y-pysgod.

2. Yn credu y dylid ailystyried y penderfyniad am ei fod yn lle anaddas i geiswyr lloches, gan ei fod wedi'i ynysu oddi wrth rwydweithiau cymorth priodol.

3. Yn condemnio'r protestiadau treisgar a drefnwyd gan grwpiau'r asgell dde eithafol o'r tu allan i Sir Benfro.

4. Yn canmol trigolion a gwirfoddolwyr lleol o bob rhan o Gymru sydd wedi croesawu a chefnogi'r ceiswyr lloches.

**Cyd-gyflwynwyr**

Joyce Watson

Leanne Wood

**Cefnogwyr**

John Griffiths

Llyr Gruffydd

Mick Antoniw

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn condemnio'r anrhefn sydd wedi digwydd o fewn canolfan filwrol Penalun, ger Dinbych-y-pysgod, yn ystod y cyfnod pan y rhoddwyd llety i geiswyr lloches yno dros yr wythnosau diwethaf, sydd wedi arwain at bresenoldeb rheolaidd gan yr heddlu.

2. Yn nodi adroddiadau yr arestiwyd pump ceisiwr lloches sy'n byw yng nghanolfan filwrol Penalun ar 10 Tachwedd 2020 ac adroddiadau am ddau arestiad y tu mewn i'r ganolfan ym mis Hydref 2020.

3. Yn nodi ymhellach adroddiadau am geiswyr lloches sy'n byw yng nghanolfan filwrol Penalun yn torri rheoliadau a chanllawiau coronafeirws ac yn ymddwyn yn afreolus wrth deithio y tu allan i'r ganolfan; a'r gofid a achoswyd i drigolion Penalun o ganlyniad i hyn.

4. Yn credu mai un o achosion rhannol y sefyllfa yn Penalun yw methiant Llywodraeth y DU i weithredu rheolaethau mewnfudo a ffiniau dyngar, cadarn a theg sy'n sicrhau nad yw trigolion tramor nad ydynt yn drigolion y DU, ac yn enwedig y rhai y gwrthodwyd ceisiadau am loches iddynt neu sydd wedi gwrthod yr hawl i breswylio mewn gwledydd diogel eraill, yn dod i mewn neu'n aros yn y DU yn anghyfreithlon.

5. Yn credu ymhellach mai un o achosion rhannol arall y sefyllfa yn Penalun yw cynllun cenedl noddfa Llywodraeth Cymru, sy'n annog pobl tramor nad ydynt yn drigolion y DU i ddod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon ac yna gwneud hawliadau am loches tra byddant wedi'u lleoli yng Nghymru.

6. Yn condemnio'n gryf ymddygiad treisgar, brawychus, tanseiliol a chuddiedig pleidiau a sefydliadau gwleidyddol y chwith eithafol weithiau, gan gynnwys Stand Up To Racism, Hope not Hate a Far Right Watch Wales, sydd wedi'i gyfeirio at bobl sy'n mynegi barn wleidyddol ddilys a rhesymol mewn perthynas â'r sefyllfa yn Penalun.

7. Yn credu bod barn trigolion Penalun o leiaf yr un mor bwysig â'r bobl hynny y cyfeirir atynt fel gwirfoddolwyr, grwpiau rhanddeiliaid, a chynrychiolwyr; ac yn canmol y rhan fwyaf o drigolion Penalun sydd o blaid rheolaethau mewnfudo a ffiniau dyngar, cadarn a theg yn y DU, ac yn berthnasol i Penalun yn benodol.

8. Yn credu y dylid rhoi'r gorau i roi llety i geiswyr lloches yng nghanolfan filwrol Penalun.

## 7 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau

(30 munud)

**NDM7477** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Awst 2020.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Medi 2020.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Ardaloedd cymorth arbennig COVID-19

(60 munud)

**NDM7480** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi lefelau uchel parhaus cyfraddau heintio COVID-19 yng nghymoedd y de, gydag ardaloedd o fyrddau iechyd Cwm Taf Morgannwg ac Aneurin Bevan yn profi rhai o'r cyfraddau uchaf yn y DU.

2. Yn nodi'r ymchwil a gynhaliwyd yn Lloegr sy'n dangos bod effeithiau'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar gymunedau ôl-ddiwydiannol yng ngogledd Lloegr ac wedi gwaethygu gwahaniaethau rhanbarthol hirsefydlog y wladwriaeth Brydeinig.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddynodi ardaloedd lle mae cyfraddau heintio COVID-19 yn uwch yn ardaloedd cymorth arbennig COVID i fod yn gymwys i gael mesurau cymorth ychwanegol a fyddai'n cynnwys:

a) cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n agored i niwed o safbwynt clinigol ac na allant weithio gartref;

b) cynyddu'r grant hunanynysu i £800;

c) adnoddau ychwanegol ar gyfer timau profi ac olrhain ac awdurdodau lleol;

d) llety gwirfoddol ychwanegol i'r rhai nad ydynt yn gallu hunanynysu'n ddiogel gartref;

e) mwy o brofion i ganfod achosion asymptomatig;

f) blaenoriaeth ar gyfer rhaglenni profi torfol a chyflwyno unrhyw frechlyn yn gynnar;

g) cryfhau ymgyrchoedd cyfathrebu cyhoeddus lleol i'w gwneud yn haws i gadw at ganllawiau iechyd y cyhoedd:

h) adnoddau ychwanegol ar gyfer wardeiniaid COVID lleol ar gyfer awdurdodau lleol a hyrwyddwyr cymunedol COVID i ailadrodd negeseuon atal COVID cenedlaethol;

i) mesurau amddiffynnol ychwanegol mewn ysgolion ac ar gludiant i'r ysgol, gan gynnwys gwisgo masgiau mewn ystafelloedd dosbarth;

j) adnoddau ychwanegol ar gyfer gofal plant diogel a fforddiadwy;

k) mesurau ychwanegol i liniaru'r rhaniad digidol a tharfu ar addysg;

l) mwy o gefnogaeth i fusnesau a phobl hunangyflogedig sy'n dewis rhoi'r gorau i fasnachu'n wirfoddol dros dro;

m) gorchmynion gwasgaru yng nghanol trefi ar ôl cau tafarndai.

Northern Health Science Alliance - COVID-19 and the Northern Powerhouse: Tackling inequalities for UK health and productivity (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod ardaloedd sy'n parhau i fod â nifer fawr o achosion o COVID-19 wedi elwa o'r cymorth ariannol o £5 biliwn a roddwyd i Gymru yn ystod pandemig COVID-19 gan Lywodraeth y DU.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â strategaeth COVID-19 sy'n wahanol i'r strategaeth gan Lywodraeth y DU yn gyson ac nad yw hyn wedi helpu'r cyfraddau heintio uchel parhaus sy'n gyffredin yng nghymoedd y de.

3. Yn credu mai'r ymateb gorau i gynorthwyo'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan COVID-19 yng Nghymru yw drwy gael ymateb unedig yn y DU, dan arweiniad Llywodraeth y DU.

**Cyd-gyflwynwr**

**Mark Reckless**

***[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol.]***

**Gwelliant 2** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru’n cadw llygad yn barhaus ar lefelau cyfraddau heintio COVID-19 ar draws Cymru, o ystyried bod y cyfraddau heintio yn uchel mewn rhai ardaloedd.

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r lefelau hanesyddol o gyllid gan Lywodraeth Ei Mawrhydi i holl ranbarthau a chenhedloedd y DU, gan gynnwys yr ardaloedd hynny sydd â

chyfraddau heintio uchel, i fynd i'r afael â pandemig COVID-19, yn enwedig y £5 biliwn o arian ychwanegol a roddwyd i Lywodraeth Cymru.

Yn credu y dylid rhoi mesurau cymorth ychwanegol ar waith yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn sgil adroddiadau yn y cyfryngau bod o leiaf 9,000 o gleifion wedi bod yn aros am fwy na blwyddyn am driniaeth gan y GIG ym mis Medi yn yr ardal honno, gydag amseroedd aros i fod i gynyddu ymhellach yn dilyn effaith COVID-19.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r canlynol mewn perthynas ag ardaloedd lle mae cyfraddau heintio COVID-19 yn uwch, yn ogystal ag ardaloedd eraill ledled Cymru:

a) targedu ardaloedd lle mae cyfraddau heintio COVID-19 yn uwch yng Nghymru, gan gynnwys cyfyngiadau call wedi'u targedu lle y bo'n briodol;

b) cynyddu'r nifer o ysbytai sy'n rhydd o COVID a chyfleusterau ysbyty dros dro a gaiff eu cyflwyno er mwyn lleddfu'r pwysau ar y system gofal iechyd a mynd i'r afael â rhestrau aros;

c) targedu profion mewn ardaloedd lle ceir problemau a chyflwyno sgrinio asymptomatig ddwywaith yr wythnos ar gyfer yr holl staff sy'n wynebu cleifion yn y GIG yng Nghymru a'r sector gofal cymdeithasol;

d) comisiynu ymchwiliad brys i farwolaethau a heintiau sy'n gysylltiedig ag achosion a gaiff eu trosglwyddo mewn ysbytai;

e) cyflwyno pecyn cymorth tosturiol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed gan y coronafeirws yng Nghymru;

f) ôl-ddyddio taliadau hunanynysu yng Nghymru hyd at 28 Medi er mwyn sicrhau chwarae teg gyda rhannau eraill o'r DU;

g) dyrannu gweddill yr arian nas gwariwyd a ddarparwyd gan Lywodraeth Ei Mawrhydi i fynd i'r afael â'r coronafeirws.

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol.]*

**Gwelliant 4** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystod eang o fesurau cymorth cenedlaethol ar waith i ymateb i’r pandemig COVID-19, gyda’r nod o

gynorthwyo'r ardaloedd hynny lle mae cyfraddau heintio COVID-19 yn uchel yn ogystal ag ardaloedd eraill yng Nghymru, gan gynnwys:

a) cynyddu'r gallu i brofi ac olrhain cysylltiadau a chyflwyno dewisiadau profi newydd;

b) cyllid a chymorth ychwanegol i awdurdodau lleol;

c) ymgyrchoedd helaeth i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ar draws sianelau'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol;

d) cymorth i ailagor ysgolion a sefydliadau addysg eraill yn ddiogel;

e) cyllid ar gyfer adferiad economaidd ac ar gyfer busnesau yng Nghymru;

f) taliad hunanynysu o £500.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7479** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Manteision llesiant y celfyddydau mewn pandemig.

Edrych ar sut y gall y celfyddydau gael effaith gadarnhaol iawn ar lesiant corfforol a meddyliol unigolyn.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2020

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 11/11/2020 i'w hateb ar 18/11/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Hefin David** *Caerffili*

**1** OQ55887

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith tân gwyllt a werthir mewn siopau ar les anifeiliaid yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**2** OQ55863

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau'r perygl o lifogydd yn y Rhondda?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**3** OQ55852

**(w)**

A wnaiff y Gweindiog roi diweddariad am y cynllun Arbed yn Arfon?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**4** OQ55881

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella bioamrywiaeth?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**5** OQ55883

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y terfyn maint dal ar gyfer pysgod cregyn yng Nghymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

**6** OQ55878

**(e)**

Pa gymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddinasyddion Cymru y mae llifogydd a difrod dŵr yn effeithio'n rheolaidd ar eu heiddo ar gyfer atal a lliniaru effeithiau llifogydd?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OQ55876

**(e)**

Beth yw dadansoddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o effeithiau COVID-19 ar ei pholisïau ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yng Nghymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

8 OQ55869

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pharthau perygl nitradau ledled Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ55872

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu i ddarparu morlyn llanw ym Mae Abertawe?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

10 OQ55855

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i brosiectau gwynt arnawf yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11 OQ55889

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

12 OQ55888

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru am yr amgylchedd yng nghymoedd de Cymru?

## Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55882

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

2 OQ55854

**(e)**

Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu hyrwyddo ar draws Llywodraeth Cymru i liniaru tlodi plant yn Ogwr?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OQ55860

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag ail gartrefi ar draws Cymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

4 OQ55877

**(e)**

Pa ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i sicrhau nad yw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn cael eu prisio allan o'u marchnadoedd tai lleol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

5 OQ55858

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn sir Benfro?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

6 OQ55857

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngogledd Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

7 OQ55865

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r agenda ddatgarboneiddio yn y sector tai cymdeithasol?

**David Melding** *Canol De Cymru*

8 OQ55867

**(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud ers 2016 i wella ansawdd stoc tai Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ55874

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru yn sgil y pandemig COVID-19?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ55879

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae'r pandemig parhaus yn ei chael ar gynllunio awdurdodau lleol ar gyfer y gaeaf?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**11** OQ55886

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**12** OQ55871

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid llywodraeth leol?